Llwybr Clawdd Offa
TAITH BYR

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# Taith Gylchol Trefyclo i Stowe



Knighton

## Manylion y llwybr

Taith gerdded ar hyd rhan o Lwybr Clawdd Offa a Llwybr Rheilffordd Calon Cymru uwchben Trefyclo.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 6.8 milltir / 11 km |
| **Man cychwyn:** | Gorsaf drenau Trefyclo |
| **Cyfeirnod grid y man cychwyn:** | SO 29057 72393 |
| **Disgrifiad what3words y man cychwyn:** | poteli.dynameg.hawster |

## Cychwyn

Cychwynnwch yng ngorsaf drenau Trefyclo, gan nodi bod yr orsaf yn gyfan gwbl o fewn Lloegr (Swydd Amwythig) a bod tref Trefyclo yn gyfan gwbl o fewn Cymru (Powys). Os ydych yn cyrraedd Platfform 1 o Loegr, croeswch y bont ffordd dros y rheilffordd. Os ydych yn cyrraedd Platfform 2 o Gymru, ymunwch â'r ffordd ond peidiwch â chroesi'r bont. Yn syml, dilynwch ffordd yr A488 i ffwrdd o Drefyclo a'r orsaf, a chyn gynted ag y daw'r palmant i ben, croeswch y ffordd a dilynwch lwybr i fyny'r allt drwy goetir. Ewch heibio i annedd anarferol a pharhau'n syth ar hyd trac, yn gyfochrog â'r ffordd fawr ond cryn bellter uwch ei phen ar y llethr coediog. Yn ddiweddarach, dringwch yn serth ac ymunwch â thrac graean troellog.

Trowch i'r dde i lawr y trac, yna trowch i'r chwith yn gyflym i lawr rhes o risiau ac ewch drwy giât mochyn i mewn i gae. Cerddwch yn araf i lawr trwy'r cae, gan groesi pont droed goncrit i gyrraedd giât mochyn arall a ffordd. Croeswch y ffordd ac ewch drwy giât, yna cerddwch yn ymyl cae. Ar y dechrau, mae gwrych ar y chwith, ond ar ôl cyrraedd bwlch i giât, ewch yn syth ymlaen gyda'r gwrych ar y dde i chi. Prin fod llwybr sathredig, ond mae'r llwybr yn rhedeg o gae i gae, gan fynd trwy gatiau fel y'u nodir.

Ymunwch â llwybr graean clir o fewn golwg pentref bychan Stowe. Peidiwch â dilyn y trac amlycaf i fyny'r allt, ond ewch drwy giât a dilynwch lwybr glaswelltog,




gan ddringo ychydig yn fwy serth. Mae'r ddau drac yn ymuno yn ddiweddarach ac mae'r ddringfa'n parhau. Ewch drwy giât a chodwch drwy doriad creigiog, yna mae'r llwybr glaswelltog yn mynd braidd yn amwys, gan ddilyn llinell hen wrych i gyrraedd corlan â gatiau.

Cerddwch drwy'r gorlan, yna trowch i'r chwith drwy giât ac arni saeth farcio. Nid oes llwybr sathredig i bob pwrpas, ond codwch yn raddol drwy gae ac unwaith dros grib ar uchder o bron i 390m (1,280 troedfedd), anelwch at bwynt lle mae tair ffens yn ymuno. Croeswch gamfa risiau simsan a throwch i'r dde i barhau. Cerddwch ar hyd ochr uchaf cae, gan groesi camfa risiau wrth ymyl giât fawr, yna ewch drwy giât fawr arall. Ewch heibio i sgubor sy'n cwympo ac ewch yn syth ymlaen trwy gatiau mochyn nes bod giât fawr olaf yn arwain at drac clir. Defnyddir y trac hwn gan Lwybr Rheilffordd Calon Cymru, y byddwn yn ei ddilyn i'r chwith.

Mae'r trac yn amlwg, a thra ei fod yn wastad ar y dechrau, mae'n dechrau disgyn yn serth heibio caeau, gan fynd heibio i bedair coeden ffawydd fawr. Mae'r graddiant yn fwy graddol ymhellach i lawr yr allt a chroesir bwlch graddol. Mae'r trac yn parhau i lawr yr allt, gan fynd trwy giât a mynd heibio i ychydig o adeiladau fferm i gyrraedd cyffordd ffordd gymhleth yn Five Turnings Farm. Croeswch ffordd yr A488, gan droi i'r dde a bron yn syth i'r chwith ar hyd ffordd fynediad fferm arall. Peidiwch â chroesi grid gwartheg, ond trowch i'r chwith trwy giât fechan a dilynwch lwybr sydd wedi'i amgáu gan wrychoedd ac sy'n rhedeg yn gyfochrog yn fras â ffordd y fferm.

Mae ffordd y fferm yn gwasanaethu New House, ond ni welir yr adeilad hwn o'r llwybr, sy'n mynd yn ddiweddarach trwy giât i fynd i mewn i gae mawr wrth ymyl coetir. Ewch heibio i bostyn cyfeirbwynt a dilynwch lwybr annelwig i fyny drwy ganol y cae, gan gofio bod y llwybr yn diflannu yn y pen draw. Fodd bynnag, anelwch tuag at gornel planhigfa goedwig fechan i ymuno â llwybr glaswelltog gyda ffens i'r chwith, a mynd heibio i nifer o goed llarwydd. Mae'r trac yn croesi crib, yn mynd trwy giât, ac mae llwyni o bobtu iddo wrth iddo ddisgyn. Gwyliwch am arwyddbost pedair ffordd, lle mae Llwybr Rheilffordd Calon Cymru yn croestorri â chwrs Llwybr Clawdd Offa. Sylwch ar y logo mes nodedig a ddefnyddir i nodi Llwybr Clawdd Offa, a fydd yn cael ei ddilyn yr holl ffordd i Drefyclo.

Trowch i'r chwith drwy giât fechan wrth ymyl giât fawr a cherddwch yn raddol i fyny'r allt drwy gae. Mae Clawdd Offa yn arglawdd isel â llystyfiant bras i'r chwith, a adeiladwyd yn yr wythfed ganrif. Mae adeilad unigol yn gorwedd i lawr i'r dde, ond dilynwch linell y clawdd i fyny'r allt, gan fynd heibio i glystyrau o goed llarwydd cyn mynd drwy giât fechan. Er bod Clawdd Offa yn cael ei ddilyn ymlaen, mae yna wastad ffens rhyngddo a'r llwybr, ac mae sawl rhan o'r clawdd wedi'i gorchuddio â llwyni eithin, mewn cyferbyniad â'r glaswellt yn y caeau.

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Taith Gylchol Trefyclo i Stowe

Ewch drwy giât fechan ac yn ddiweddarach disgyn i mewn i pant i fynd drwy borth. Daliwch i ddilyn y ffens a llinell y clawdd ymlaen, gan gyrraedd mainc wrth ymyl carreg goffa ger Panpunton Hill. Mwynhewch yr olygfa o amgylch Bryniau Swydd Amwythig Lloegr, gan edrych ar draws dyffryn yr Afon Tefeidiad i fryniau canolbarth Cymru. (Gellir dilyn Llwybr Glyndŵr drwy'r bryniau hyn, o Drefyclo i Lanidloes, Machynlleth a'r Trallwng.)

Dilynwch y llwybr ymlaen, gan groesi llethr o lwyni eithin a mynd heibio giât fechan. Mae'r llwybr yn disgyn ar hyd ochr coed, gan gyrraedd arwyddbost yn ddiweddarach a throi i'r dde i barhau i lawr rhwng llwyni eithin. Dilynwch y llwybr yn syth i lawr yr allt, yn gyntaf ar lethr o redyn, yna i mewn i goetir, cyn i giât fechan arwain at ffordd fach ychydig i'r dde o Panpwnton Farm (Panpunton ar y map). Croeswch y ffordd ac ewch drwy giât i barhau, gan gyrraedd rheilffordd yn fuan. Gwyliwch am drenau cyn cerdded ar draws y lein, yna trowch i'r dde i groesi pont droed yn gyfochrog â'r bont reilffordd sy'n croesi' Afon Tefeidiad.

Trowch i'r chwith i ddilyn llwybr cae gwastad wrth ymyl Afon Tefeidiad. Mae hyn yn ddiweddarach yn arwain at goetir, gan basio o Loegr (Swydd Amwythig) i Gymru (Powys). Yn wir, mae pont droed fechan yn y goedwig, yn nodi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, lle gallwch sefyll gydag un droed ym mhob gwlad! Mae'r llwybr yn dringo drwy'r coed ac yn dringo grisiau i fan gwyrdd, lle mae llwybr yn mynd heibio i offer ffitrwydd i gyrraedd Canolfan Clawdd Offa. Mae hon yn cynnig llawer o wybodaeth ddiddorol am Glawdd Offa a Llwybr Clawdd Offa. Gwiriwch amseroedd agor yn offasdyke.org.uk/offas-dyke-association/offas-dyke-centre

Gadewch y ganolfan a throwch i'r chwith ar hyd West Street i gerdded i mewn i Drefyclo, gan fynd heibio tŵr cloc anferth. (Mae Llwybr Glyndŵr yn dringo i fyny High Street o dŵr y cloc.) Parhewch i lawr Broad Street a throwch i'r chwith ar hyd Station Road i ddychwelyd i'r orsaf drenau. Mae trenau i Gymru yn gadael o Blatfform 1 ac mae trenau i Loegr yn gadael o Blatfform 2.

**Parcio:** Parcio cyfyngedig yng ngorsaf drenau Trefyclo a Chanolfan Clawdd Offa, gyda mwy o leoedd yn Larkey Lane a Bowling Green Lane.
**Bysiau:** Mae gwasanaethau bws yn cysylltu Trefyclo a Cheintun, ac eithrio dydd Sul.
**Trenau:** Mae trenau Rheilffordd Calon Cymru dyddiol yn gwasanaethu Trefyclo o Amwythig a Machynlleth.

